# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)01-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 22 Ionawr 2008

**Amser:** 8.30am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aeoldau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, i'r cyfarfod.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)01-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 15 Ionawr 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)02-08(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn gwneud datganiad am yr Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Morglawdd ar draws Afon Hafren, yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth.

3.1 Nododd y Pwyllgor drefn y busnes ar gyfer 22 a 23 Ionawr 2008.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na chaiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn 5.00pm ar ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)02-08(p2)**

3.3 Nododd y Pwyllgor Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)02-08(p3)**

3.4 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**

**Llythyr gan Dr Hywel Francis AS, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig - BC(3)02-08(p4)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, a oedd yn gofyn am wybodaeth ynghylch nifer ac amseriad disgwyliedig y Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig y disgwylir i'r Cynulliad eu hystyried.

**5. Mesurau Cynulliad**

**Papur ynghylch trafodaethau'r Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) - BC(3)02-08(p5)**

5.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes y papur ynghylch y Mesur yn ystod Cyfnod 2. Dywedodd y Cadeirydd fod Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Cyfnod 1 y Mesur wedi mynegi eu dymuniad i barhau i weithio ar y Mesur. Cytunodd y Pwyllgor Busnes yn unol â Rheol Sefydlog 23.31, i gyfeirio'r Mesur yn ôl i Bwyllgor Cyfnod 1 i'w ystyried yn ystod Cyfnod 2. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r amserlen hon yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad.

**6. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Papur gan Wasanaeth y Pwyllgorau: Cais am Ragor o Slotiau ar gyfer Pwyllgorau - BC(3)02-08(p6)**

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur a oedd yn egluro bod angen i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyllid gyfarfod yn amlach....

Mynychodd David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Busnes i drafod rhagor o slotiau ar gyfer pwyllgorau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i edrych ar nifer Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ac ar gyflwyno slotiau ar gyfer cyfarfodydd bob yn ail wythnos i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyllid.

**7. Unrhyw fater arall**

7.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes y trefniadau ar gyfer ymweliad y Comisiynydd Wallstrom â'r Cynulliad ddydd Iau 31 Ionawr 2008. Cytunodd y Pwyllgor y byddai cynnig yn cael ei gyflwyno i sefydlu Pwyllgor o'r Cynulliad cyfan ac y byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod yn y Siambr.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**